Ychwanegu byd natur

Trosolwg

Mae byd natur yn byrlymu o'n cwmpas, a dylai ein mannau chwarae awyr agored ddathlu hynny! Mae cynnwys elfennau naturiol ym mhob parth chwarae yn y man awyr agored yn helpu i gysylltu plant â'r byd sydd o'u cwmpas.



Gweithgareddau

Ychwanegwch fyd natur at wahanol ardaloedd drwy:

- Ychwanegu planhigion at ffiniau eich parthau chwarae. Mae teiars o gwmpas pwll cloddio yn gallu bod yn erddi bach hyfryd!
- Gosod llestri plannu o gwmpas y man awyr agored (rhai bach neu fawr) a dewis planhigion a fydd yn denu peillwyr.
- Gosod llecynnau bywyd gwyllt clyd, e.e. teclynnau bwydo adar a chynefinoedd bwystfilod bach, o gwmpas eich man awyr agored.
- Sicrhau bod digon o eitemau chwarae naturiol, bach a mawr, ar gael i'r plant chwarae â nhw.

Offer

- Llestri plannu: e.e. llestri plannu o bren, teiars, welingtons – byddwch yn greadigol!
- Cartrefi a theclynnau bwydo ar gyfer bywyd gwyllt, yr ydych wedi'u creu gyda'r plant
- Eitemau chwarae naturiol megis hadau, dail, concyrs, mes

Rhyngweithio allweddol

Modelwch ffyrdd o archwilio'r eitemau naturiol â'r synhwyrau, e.e. "Mae'r dail ar y planhigyn yma'n teimlo yn feddal." Modelwch ffyrdd o fod yn ofalus wrth wneud hynny, gan helpu'r plant i ddysgu sut mae gofalu am fyd natur.

Deilliannau dysgu

- Dysgu actif – bydd y plant yn dysgu am briodweddau'r eitemau y maent yn chwarae â nhw neu sydd o'u cwmpas, a byddant yn dysgu sut i ofalu am fyd natur.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Ystyriwch osod amrywiaeth o arwynebau naturiol yn eich man awyr agored.
- Crëwch gartrefi mwy o faint ar gyfer bywyd gwyllt i'w rhoi yn eich ardaloedd.
- Gallech greu cartref i fwystfilod bach ar baled, neu greu abwydfa gyda'r plant.